

## #ChwyldroadauBychain 4 - Creaduriaid Cegin

Dyma Chwyldroad Bychan gan Rhian Williams o Penybontfawr, Cymru.

### I greu pryfyn fel un Rhian, byddwch angen:

- Tin gwâg, glân.
- Paent sy'n addas ar gyfer arwyneb metel (neu gallwch addurno'r tin hefo papur lapio).
- Cylchoedd wedi eu torri allan o blastig tenau neu cardfwrdd i greu llygaid.
- Glanhawyr pibellau i greu adenydd.
- Glud cryf neu wn glud.
- Brigyn neu ffon bambw.

Tynnwch y label o'r tin a'i olchi hefo brws golchi llestri gan gymryd gofal rhag ofn bod darnau miniog o fetel. Paentiwch y tin (neu gorchuddiwch yr ochrau hefo papur lapio, neu papur plaen ac yna ei addurno eich hun).

Crëwch ddolenni gyda'r glanhawyr pibellau i greu pâr o adennydd, a gludiwch nhw yn eu lle. Os oes gennych chi ddril, gwnewch dwll yn y tin yn y lleoliad lle hoffech chi wthio'r brigyn nww ffon bambw. Gludiwch y brigyn yn ei le fel nad yw'r pryfyn yn troelli neu hedfan i ffwrdd!



### I greu Gwdihw fel un Rhian byddwch angen:

- Un tin mawr.
- Dau gaead jariau jam.
- Darn o tin e.e. caead tin hefo 'ring-pull', wedi ei blygu i greu siâp pîg.
- Dau gaead poteli llaeth plastig. Dwy fforc (ar gyfer traed y gwdihw)
- Glud cryf neu gwn glud.
- Dril os oes gennych chi un.

Tynnwch label y tin a'i olchi gyda brws golchi llestri, gan edrych allan am ddarnau miniog fyddai'n gallu achosi anaf.

Gludiwch y ddwy lygad i'w lleoliadau, a'r cylchau llai tu mewn.

Plygwch y darn tin yn driongl, gan gymryd gofal i beidio ag anafu eich hunan.

Gallwch wneud hyn ar fwrdd torri (chopping board), gyda cefn llwy bren er mwyn gwasgu ochrau'r siâp yn fflat. Rhowch ychydig o gromlin ar y triongl o wneud siâp pîg i'r gwdihw a gludiwch ochr syth y pig ar ei wyneb.

Gyda'r gwdihw ben i lawr, gosodwch y ffyr (traed) yn eu lle a gludiwch nhw yn eu lle.

Os oes gennych chi ddril, gwnewch dwll ar ddwy ochr y tin yn agos i'r top, a clymwch gortyn drwyddynt. Nawr gallwch hongian eich gwdihw!

